**LC1214**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae'r Gorchymyn yma’n gwneud dau newid bach i Orchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) (Rhif 2) 2004 ("Gorchymyn 2004"). Cafodd hwnnw ei wneud o dan y weithdrefn weithredol yn uniaith Saesneg ar 31 Mawrth 2004.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Roedd adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn 2004 yn cynnwys y pwyntiau canlynol -

Mae nifer o'r diffiniadau'n cyfeirio at y "1977 Act". Nid yw'r term hwnnw'n cael ei ddiffinio. Dylid fod wedi'i ddiffinio naill ai fel Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 neu dylid fod wedi defnyddio'r teitl llawn drwyddi draw.

Yn erthyglau 71 a 73, ceir tri chyfeiriad at "that Trust". Rwy'n deall y dylid eu newid i "that Local

Health Board" am mai hwnnw yw'r corff perthnasol yng Nghymru.

Mae Erthygl 77(4) yn cyfeirio at "amendments to regulations 11(3), (4) and (5)". Mae Erthygl 70 yn diffinio "amendments" fel y rheini a wneir gan Atodlen 1. Nid oes gwelliant i reoliad 11(5). Dylai felly fod wedi'i hepgor onid y bwriad oedd cyfeirio at welliant i ran arall o reoliad 11.

Roedd yn amhosibl cywiro’r rhain drwy ddefnyddio gweithdrefn y Memorandwm Cywiriadau ar y pryd am fod y Gorchymyn eisoes wedi’i wneud o dan y weithdrefn weithredol. Mae’n drueni nad yw’r cyfle wedi’i gymryd y tro yma i gywiro’r diffygion yma yn y Gorchymyn sy’n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Chwefror 2006